------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(228)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys 1**

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i adfer hyder y cyhoedd yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn sgil y digwyddiad yn Argoed a arweiniodd at farwolaeth dau o bobl?

**Cwestiwn Brys 2**

**Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweidog ddatganiad ar yr eiddo a brynwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud lle i 'lwybr du' yr M4 cyn y gwnaed penderfyniad terfynol ar y llwybr?

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Diweddariad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi - Ymateb gan Lywodraeth Cymru (30 munud)**
**Dogfen Ategol**
[Trechu tlodi trwy ddiwylliant]

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Y Cyflenwad Tai (30 munud)**

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd (30 munud)**

**Dogfen Atodol**

[Datganiad Ysgrifenedig - Trefniadau ar gyfer rheoli Traffyrdd a Chefnffyrdd Cymru]

**7 Dadl: Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5613 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) Gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

b) Y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

c) Pecyn Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gael o'r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/armedforces/packagesupport/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi maniffesto y Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 a'i dogfen 'Community Covenants - What's Next?'

Mae Maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 ar gael yn:

http://www.britishlegion.org.uk/media/4044612/Extend e d-Manifesto.pdf
(Saesneg yn unig)

Mae Cyfamodau Cymunedol y Lleng Brydeinig Frenhinol ar gael yn:
http://www.britishlegion.org.uk/media/3978192/ComCov_whats_next.pdf (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen:

a) i amddiffyn cyllid termau real ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr;

b) am ddarpariaeth gofal cymdeithasol teg i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog; ac

c) am ddarpariaeth breswyl ddigonol a phriodol i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaeth di-dor ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog sydd â phroblemau iechyd meddwl a achoswyd gan wasanaeth gweithredol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Lluoedd Arfog i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer milwyr eisoes ar gael ar gyfer y rhai sydd ei angen pan fyddant yn gadael y gwasanaeth.

**8 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 11 Tachwedd 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiogelwch ar y ffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1945(FM)

**2. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(4)1943(FM)

**3. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar wasanaethau llywodraeth leol? OAQ(4)1949(FM)

**4. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1944(FM)

**5. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth chwaraeon ledled Cymru? OAQ(4)1938(FM)

**6. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill 2014/15? OAQ(4)1951(FM)

**7. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar baratoadau ar gyfer llifogydd dros y gaeaf? OAQ(4)1950(FM)

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â diogelu plant? OAQ(4)1936(FM)

**9. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru i adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Cymru o Blaid Affrica? OAQ(4)1939(FM)

**10. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â chyfrifoldebau nyrsys ymarfer? OAQ(4)1946(FM)**W**

**11. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar Nodyn Cyngor Technegol 8? OAQ(4)1952(FM)

**12. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu cynllluniau ynni cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)1942(FM)

**13. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei ymweliad diweddar ag India? OAQ(4)1941(FM)

**14. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwysigrwydd perthynas Cymru â'r UE? OAQ(4)1947(FM)

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)1953(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 19 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 26 Tachwedd 2014**
**Dydd Mawrth 2 Rhagfyr a dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014**
************************************************************************

**Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth - darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth allforio (15 munud)
- Dadl: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (120 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 19 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015/16 (30 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud) - gohiriwyd o ddydd Mercher 12 Tachwedd

**Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Gwrth-Gaethwasiaeth (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Imiwneiddio - cynnydd a brechiadau (30 munud)[ut1}
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Defnyddwyr: Gwelliant ynghylch Ffioedd Asiantaethau Gosod (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 26 Tachwedd 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)
- Dadl Fer – Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud) – gohiriwyd o ddydd Mercher 19 Tachwedd

**Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno'r Bil Cymwysterau (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Gwyddoniaeth yng Nghymru – Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf (30 munud)
- Dadl: Effaith y Polisi Caffael yng Nghymru (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2014 ar y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau (60 munud)

**Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

- Datganiad gan Kirsty Williams: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod - y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ddulliau Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - William Graham (Dwyrain De Cymru) (30 munud)